

Lle i Chwaraeon - Cynllun buddsoddi cyfalaf Chwaraeon Cymru ar gyfer gwella cyfleusterau chwaraeon cymunedol

Cyflwyniad

Nod y buddsoddiad hwn yw helpu sefydliadau cymunedol gyda chyllido torfol ar gyfer gwaith cyfalaf (adeiladu neu adnewyddu) a fydd yn gwella llefydd yn eu hardal leol, i alluogi pobl i gael profiad gwell, i sicrhau bod cyfleusterau'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol.

Mae ein cyllid buddsoddi cyfatebol, o hyd at £15,000, wedi'i dargedu at grwpiau a sefydliadau cymunedol sydd wedi dod ar draws problem, wedi ymgynghori â'u cymuned ynghylch beth all yr ateb fod ac sy'n ceisio buddsoddiad i gael eu prosiect i symud ymlaen.

Meini Prawf Cymhwysedd

Mae'r cyllid cyfatebol hwn wedi'i gynllunio i helpu grwpiau cymunedol i gyflwyno prosiect i greu, gwella neu ailddatblygu lle cymunedol ar gyfer chwaraeon.

I fod yn gymwys i wneud cais, rhaid i sefydliadau fod fel a ganlyn:

- Sefydliadau nid-er-elw yn y sector elusennol, cymunedol, gwirfoddol a chymdeithasol sy'n darparu chwaraeon a / neu weithgarwch corfforol yn eu cymuned.
- Er budd pobl sy'n byw yng Nghymru.
- Ceisio buddsoddiad ar gyfer cyfleusterau mewnol / allanol / gwaith moderneiddio
- Cynnwys y gymuned leol wrth ddatblygu a chwblhau eu prosiect.

Nid yw'r canlynol yn gymwys i gael cyllid:

- Unigolion neu unig fasnachwyr
- Ar gyfer busnesau neu bartneriaethau elw
- Ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Darparwyr chwaraeon a gweithgarwch corfforol masnachol, e.e. campfeydd preifat
- Gweithredwyr hamdden gan gynnwys ymddiriedolaethau hamdden
- Y sefydliadau hynny sydd eisoes wedi defnyddio Cronfa Darparwyr Preifat Chwaraeon Cymru

Ar gyfer pob cais, os ydych chi'n gysylltiedig â chwaraeon risg uchel, mae'n rhaid i chi fod yn aelod o Gorff Rheoli Cenedlaethol a gydnabyddir gan Chwaraeon Cymru cyn y gellir ystyried eich cais. Mae rhagor o wybodaeth am gyrff rheoli chwaraeon risg uchel ar gael yma:

<https://www.sport.wales/files/56254f77c19c5e3d44eeec08e7c3f15a.docx>

Blaenoriaethau

Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sydd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig i sicrhau bod ein buddsoddiad cyfatebol yn cyrraedd y rhai mwyaf anghenus. Sefydliadau fydd y rhain sy'n gwneud un neu ddau o'r canlynol:

- Cyflwyno gweithgarwch mewn ardaloedd sy'n profi amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys cymunedau gwledig
- Gweithio gydag un neu fwy o'r grwpiau canlynol fel prif ffocws:
 - pobl anabl
 - grwpiau economaidd-gymdeithasol is
 - pobl Dduo, Asiaidd a phobl â chefnidiroedd ethnig amrywiol eraill

Byddwn yn parhau i gefnogi prosiectau nad ydynt yn bodloni'r blaenoriaethau hyn, ond efallai y byddwn yn lleihau lefel y cyllid cyfatebol a gynigir. Bydd y cyllid cyfatebol fel rheol rhwng 30 a 50% o darged y prosiect.

Eithriadau

Mae rhai pethau na allwn eu cyllido, y rhain yn bennaf, ond nid dim ond y rhain chwaith:

- Prosiectau nad ydynt o fudd i bobl sy'n byw yng Nghymru
- Ceisiadau gan unigolion, neu sydd er budd un unigolyn
- Sefydliadau sy'n ceisio dosbarthu grantiau ar ein rhan
- Ar gyfer gwaith sydd eisoes wedi digwydd
- Cerbydau, gan gynnwys bysiau mini
- Prosiectau refeniw yn unig (h.y. costau staff a theithio, llogi lleoliad, offer nad yw'n sefydlog)
- Buddsoddiadau cyfalaf 'ar y cae' h.y. draenio cae, llifoleuadau - (Gellir gwneud cais am y rhain trwy Gronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru [yma](#))
- Cynnal a chadw ac atgyweiriadau rheolaidd sy'n deillio o draul
- Meysydd chwarae ac offer chwarae i blant
- Prosiectau a fwriadwyd er budd preifat
- Prosiectau rydym wedi'u cyllido yn y gorffennol
- Ymgyrchoedd yn cynnig raffl yn unig fel Gwobrau
- Ymgyrchoedd yn cynnig Gwobrau yn unig ar ffurf ffioedd aelodaeth neu danysgrifiadau
- Ymgyrchoedd Ar Gau neu Bob Amser Ymlaen ar Crowdfunder

Rydym hefyd yn annhebygol o gefnogi ceisiadau:

- Lle mae sefydliadau mewn diffyg ariannol difrifol
- Gan elusennau cenedlaethol mawr sy'n cael cefnogaeth eang

Meini Prawf Addewid

Os caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwch yn cael cyllid cyfatebol o hyd at 50% tuag at eich targed cyllido torfol cychwynnol, hyd at uchafswm o £15,000. Bydd y cynnig hwn yn ddilys am 4 wythnos ar ôl dyddiad yr hysbysiad, os na fyddwch yn lansio'ch ymgyrch cyllido torfol o fewn 4 wythnos i gael gwybod, bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Yn dilyn cymeradwyaeth ar gyfer cyllid, os ydych eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'ch targed ymgyrchu, neu unrhyw newidiadau sylweddol i'ch gwobrau neu gynnwys tudalen arall, rhaid i chi ein hysbysu. I dderbyn addewid, bydd angen i chi wneud dau beth (yr 'amodau addewid'):

1. codi o leiaf 25% o'ch targed cychwynnol,
2. codi'r swm yma gan isafswm gofynnol o Gefnogwyr unigol. I wirio a yw Cefnogwyr yn unigryw byddwn yn ystyried gwybodaeth gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: enw, cyfeiriad, cyfeiriadau e-bost a'r cerdyn talu a ddefnyddir.

Y nifer lleiaf o Gefnogwyr unigol sydd eu hangen yw:

- 25 o Gefnogwyr unigol os yw'ch targed hyd at £5,000
- 50 o Gefnogwyr unigol os yw'ch targed rhwng £5,001 a £10,000
- 75 o Gefnogwyr unigol os yw'ch targed rhwng £10,001 a £15,000
- 100 o Gefnogwyr unigol os yw'ch targed dros £15,000

Os na fodlonir y naill neu'r llall o'r amodau hyn, bydd yr addewid yn cael ei ddal yn ôl nes bod y ddau wedi'u bodloni. Os bodlonir y ddau amod hyn, bydd Chwaraeon Cymru yn addo hyd at 50% o'ch targed, hyd at uchafswm o £15,000. Wedyn mae'n rhaid i chi barhau i godi arian i gyflawni 100% o'ch targed cyllido a derbyn cyllid Chwaraeon Cymru. Os bydd y prosiect yn methu cyrraedd 100% o'r targed, bydd addewid Chwaraeon Cymru yn cael ei ganslo. Anogir perchennog y Prosiect i adolygu'r hyn a aeth o'i le ac, os yw'n briodol, i geisio cyllid torfol eto.

Bydd union swm eich addewid yn cael ei bennu ar sail pa mor dda mae eich tudalen cyllido torfol a'ch cais yn dangos eich bod yn bodloni blaenoriaethau'r gronfa:

- 30% os yw'n gais cymwys sydd â thudalen cyllido torfol sy'n debygol o ennill cefnogaeth.
- 40% os yw'n gais cymwys sy'n dangos sut mae'n bwriadu cefnogi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.
- 50% os yw'n gais cymwys a bod y prosiect wedi'i leoli yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, fel y nodir gan ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Nodyn - Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i amrywio'r meini prawf addewid hyn; hysbysir prosiectau os bydd eu meini prawf addewid yn amrywio o'r telerau a nodwyd uchod.

Gofynion ychwanegol

Byddwch yn anghymwys i gael cyllid gan Chwaraeon Cymru os, yn unol â disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru, nad yw'n fodlon bod yr holl addewidion gan Gefnogwyr ar gyfer eich prosiect yn addewidion dilys. Pan nodir bod prosiectau neu addewidion yn dwyllodrus, yn dwyllodrus o bosib, neu'n dangos perswadio addewid i brosiect er mwyn cael cyllid cyfatebol, bydd hyn yn cael ei drin fel mater difrifol.

Os yw hynny'n briodol:

- Gwrthodir eich cais am gyllid a bydd unrhyw ymrwymiad presennol am gyllid yn cael ei dynnu'n ôl.
- Efallai y bydd eich prosiect Cyllido Torfol yn cael ei ganslo, a byddwch yn anghymwys ar gyfer ceisiadau neu brosiectau yn y dyfodol.
- Cymerir camau i hawlio cyllid sydd wedi'i dalu yn ôl.

Mae'n ofynnol i bob prosiect a gyllidir gytuno i Amodau Grant Lle i Chwaraeon gan Chwaraeon Cymru

Dylech lawrlwytho a chadw copi o'r ddogfen hon a'r Amodau Grant.